# Y Pwyllgor Deisebau

## PET(3) 10-09 : Cofnodion

**Dyddiad: Dydd Mawrth 23 Mehefin 2009**
**Amser: 09:31 - 10:24**
**Lleoliad: Ystafell Bwyllgora 1, y Senedd, Bae Caerdydd**

### Aelodau'r Cynulliad yn Bresennol

Sandy Mewies AC, Delyn (Cadeirydd Dros Dro)

Andrew RT Davies AC, Canol De Cymru

Mike German AC, Dwyrain De Cymru

Bethan Jenkins AC, Gorllewin De Cymru

### Swyddogion

Alun Davidson, Clerc

Daniel Collier, Dirprwy Glerc Dros Dro

Joanest Jackson, Cynghorwr Cyfreithiol

### Cyflwynwyr

Barry Greenwood, y prif ddeisebydd, Cadwch Farchnad Da Byw y Fenni.

Jenny Long, deisebydd, Cadwch Farchnad Da Byw y Fenni.

#### 1. Cyflwyniadau, Ymddiheuriadau a Dirprwyon

### 2. Sesiwn dystiolaeth: P-03-205 Cadwch Farchnad Da Byw y Fenni

Clywodd y Pwyllgor dystiolaeth lafar gan Barry Greenwood a Jenny Long o ymgyrch Cadwch Farchnad Da Byw y Fenni.

#### Camau i'w cymryd

Cytunodd y Pwyllgor i:

ysgrifennu at Gyngor Sir Fynwy i ofyn am wybodaeth ynghylch a ydynt yn bwriadu gofyn i Lywodraeth Cymru ddiddymu Deddfau Gwelliannau i'r Fenni 1854-1871 ac amserlen debygol y datblygiad arfaethedig;

ysgrifennu at y datblygwyr i ofyn am eglurhad ynghylch yr effaith y byddai'r cynigion yn ei chael ar y Fenni;

ysgrifennu at y farchnad da byw i ofyn am eu barn ynghylch y datblygu arfaethedig ar y safle a'r effaith y byddai'n ei chael ar y Fenni;

gofyn am eglurhad gan y Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol ac Adfywio ynglŷn â'i safbwynt ynghylch y pŵer i ddiddymu Deddfau Gwelliannau i'r Fenni 1854-1871 a'r camau nesaf y byddai'n eu cymryd wedi cael cais gan Gyngor Sir Fynwy i ddiddymu'r deddfau;

ysgrifennu at Undeb Cenedlaethol Amaethwyr Cymru (NFU Cymru) ac Undeb Amaethwyr Cymru (FUW) i ofyn am eu barn ynghylch y datblygu arfaethedig ar safle marchnad da byw y Fenni.

### 3. Deiseb newydd

### (i) P-03-219 Fferyllfeydd yn y Barri

Ystyriodd y Pwyllgor y ddeiseb hon am y tro cyntaf.

#### Camau i'w cymryd

Cytunodd y Pwyllgor i:

ysgrifennu at y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol i ofyn am ei safbwynt o ran y rheoliadau ynglŷn ag adleoli fferyllfeydd yng Nghymru ac a yw'n fwriad ganddi ddiwygio'r rheoliadau hynny;

ysgrifennu at Gymdeithas Fferyllol Frenhinol Cymru, Fferylliaeth Gymunedol Cymru, a'r cyngor iechyd cymuned i ofyn am eu barn

ynghylch y rheoliadau ynglŷn ag adleoli fferyllfeydd yng Nghymru.

## 4. Trafod y dystiolaeth

## Trafododd y Pwyllgor y dystiolaeth ynglŷn â'r ddeiseb Cadwch Farchnad Da Byw y Fenni.

## 5. Y wybodaeth ddiweddaraf am ddeisebau blaenorol

### (i) P-03-118 Cymdeithas Canŵio Cymru

Ystyriodd y Pwyllgor y wybodaeth ddiweddaraf am y ddeiseb hon.

**Camau i'w cymryd**

Cytunodd y Pwyllgor i:

aros am ganlyniad adroddiad y Pwyllgor Cynaliadwyedd ar Fynediad ar hyd Dŵr Mewndirol cyn bwrw ymlaen.

### (ii) P-03-166 Ysbyty Abertyleri a'r Cylch

Ystyriodd y Pwyllgor y wybodaeth ddiweddaraf am y ddeiseb hon.

**Camau i'w cymryd**

Cytunodd y Pwyllgor i:

gau'r ddeiseb hon gan nad oes modd i'r Pwyllgor fynd â'r ddeiseb ymhellach.

### (iii) P-03-202 Lwfans Cynhaliaeth Addysg

Ystyriodd y Pwyllgor y wybodaeth ddiweddaraf am y ddeiseb hon.

**Camau i'w cymryd**

Cytunodd y Pwyllgor i:

aros am ymateb y Gweinidog dros Blant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau i adroddiad y Pwyllgor Menter a Dysgu ar y Lwfans Cynhaliaeth Addysg cyn bwrw ymlaen.

### (iv) P-03-207 Canolfan waith Trefynwy

Ystyriodd y Pwyllgor y wybodaeth ddiweddaraf am y ddeiseb hon.

**Camau i'w cymryd**

Cytunodd y Pwyllgor i:

aros am ymateb y deisebwyr.

### (v) P-03-212 Lleihau traffig yn Llanelwy

Cytunodd y Pwyllgor i:

ysgrifennu at y Gweinidog dros yr Economi a Thrafnidiaeth i argymell bod Llywodraeth Cymru yn cysylltu'n agos â Taith i lunio cynllun integredig, a fyddai'n ystyried y newidiadau a'r gwelliannau o ran mynediad i'r A55.

#### (vi) P-03-213 Rhowch y gorau i'r cynllun difa moch daear

**Camau i'w cymryd**

Cytunodd y Pwyllgor i:

ysgrifennu at y Gweinidog dros Faterion Gwledig i ofyn am ragor o fanylion ynghylch pryd y mae'n disgwyl i'r gwerthusiad o'r cynllun peilot triniaeth ddwys i ddileu TB gael ei gwblhau.

**Gwasanaeth y Pwyllgorau**

Mehefin 2009